**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**ELL 19-02(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 19 Rhagfyr 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | **Etholaeth** |
| | Gareth Jones **(Cadeirydd)** | Conwy |
| | Jane Davidson **(Gweinidog)** | Pontypridd |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | **Swyddogion** | |
| | Richard Davies | Cyfarwyddwr yr Adran Masnach a Diwydiant |
| | Elizabeth Taylor | Pennaeth, Rheolaeth Ysgolion |

| | |
|---|---|
| Elizabeth Williams | Pennaeth, Tim Polisi Ieuenctid |
| Keith Davies | Pennaeth, Safonau a Pherfformiad |
| Derek Adams | Pennaeth, Addysg Uwch |
| **Hefyd yn Bresennol:** | **Estyn** |
| Susan Lewis | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Maggie Turford | |
| Gareth Adams | |
| Mike Haines | |
| **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** | |
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

2. dd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Huw Lewis a Janice Gregory.
3. dodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau ei fod, yng nghwmni'r Clerc a'r Dirprwy Glerc, wedi ymweld ag Ysgol-y-Wern (ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd) i wrando ar ddisgyblion yn cyflwyno eu syniadau am 'ysgol y dyfodol'. Roedd y digwyddiad hwn yn hynod ddiddorol a phleserus ac fe'i trefnwyd gan XL Cymru er mwyn helpu'r Pwyllgor gyda'i adolygiad polisi.
4. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i wneud unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn unol â gofyniad statudol 4.5. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog**

**Papur: ELL 19-02(p.1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad ysgrifenedig, ac fe'i derbyniwyd. Cyfeiriodd at y

materion ychwanegol canlynol:

- Roedd y Gweinidog wedi ymateb yn ysgrifenedig i ymholiad gan Jonathan Morgan ynghylch y modd y mae **Grantiau Dysgu’r Cynulliad** yn cael eu dosbarthu a byddai’r Aelodau yn derbyn copi o’r llythyr hwn;
- Cyhoeddwyd amrywiaeth o **fwletinau ystadegol ar addysg** yn ddiweddar ar faterion yn ymwneud â chyfranogi mewn addysg uwch, disgyblion yn gadael ysgol heb gymwysterau a maint dosbarthiadau mewn ysgolion cymradd – roedd y rhain ar wefan y Cynulliad;
- Roedd **Estyn** ar fin cyhoeddi adroddiad yn y Flwyddyn Newydd o dan y teitl **"Anelu at ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3"** a byddai’r Aelodau yn derbyn copi;
- Roedd **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (HEFCW) wedi neilltuo **£5.3million** ar gyfer newid pwysig yn strwythur addysg uwch Cymru. Dosbarthodd y Gweinidog gopi o ddatganiad diweddar i’r wasg yn ymwneud â’r mater hwn.

2.2 Yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i holi’r Gweinidog. Dyma’r prif faterion a godwyd:

**Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog**

- Roedd y rhan fwyaf o’r Aelodau yn croesawu’r Cynllun Gweithredu ond teimlent fod lle i’w wella mewn rhai mannau;
- Teimlai rhai Aelodau y dylid cynnwys rhagor o fanylion (e.e. yr angen i ehangu’r ddarpariaeth 6-17 oed) a hefyd y dylid gosod targedau ac amserlenni penodol;
- Teimlai rhai Aelodau y dylai’r Cynllun Gweithredu gynnwys diffiniad o ysgol cyfrwng Cymraeg (neu amrywiol gategorïau o ysgolion) y gellid eu hymgorffori mewn canllawiau, er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru;
- Teimlai rhai Aelodau y dylid ehangu’r adran ar Anghenion Addysgol Arbennig;
- Teimlai rhai Aelodau y dylai’r Cynllun Gweithredu gynnwys cynigion i gael mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch o’r sylfaen presennol o 3 y cant;
- Teimlai rhai Aelodau y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i rôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Dywedodd y Gweinidog y byddai’n ystyried pryderon yr Aelodau, yn arbennig o safbwynt targedau. Byddai’r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn fersiwn derfynol y Cynllun Gweithredu i’w lansio yn y Flwyddyn Newydd.

**Grantiau Dysgu’r Cynulliad**

- Cyfeiriodd Jonathan Morgan at lythyr y Gweinidog a mynegodd siom nad oedd rhagor wedi manteisio ar y Grantiau hyn, yn enwedig yn y sector addysg bellach;
- Gofynnodd i’r Gweinidog adolygu’r meini prawf sy’n cael eu defnyddio wrth ddyrannu Grantiau Dysgu’r Cynulliad;
- Nododd y Gweinidog y pryderon hyn a dywedodd fod yr ansicrwydd a ddaeth yn sgil y broblem ynghylch budd-daliadau wedi cael effaith anghymesur yn y sector Addysg Bellach ond bod hyn bellach wedi’i ddatrys;
- Dywedodd y Gweinidog na fyddai’n bosibl asesu effeithiolrwydd y Grantiau tan y Nadolig nesaf;

- Cytunodd y Gweinidog i gyflwyno papur ar Grantiau Dysgu'r Cynulliad i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd.

**Eitem 3: Llwybrau Dysgu 14-19**

3.1 Rhoddodd Elizabeth Williams y manylion diweddaraf i'r Pwyllgor ar hynt yr ymarfer ymgynghori cyfredol ar y cynigion ar gyfer y cwricwlwm 14-19 oed. Mae crynodeb o'r prif faterion a godwyd isod:

**Ymgynghoriad**

Byddai'r ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben ar 7 Chwefror 2003. Byddai 'Canllaw Ar-lein' a 'Funky Dragon' yn cynnal ymgynghoriad cyflenwol;

- Byddai cynllun gweithredu yn cael ei lunio unwaith y byddai'r ymatebion wedi dod i law a byddai hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 2 Ebrill 2003;
- Roedd y Tim Polisi Ieuenctid wedi trefnu boreau coffi i hwyluso'r ymgynghoriad: cynhaliwyd pum sesiwn bellach ac roedd dros 500 o bobl wedi cymryd rhan.

**Cynigion**

- Nodwyd y rhain yn y ddogfen ymgynghori a ddarparwyd ar gyfer yr Aelodau.

**Materion yn Codi o'r Ymgynghoriad**

- Cafwyd ymateb positif ar y cyfan;
- Roedd angen i rieni ddeall y dewisiadau eang sydd ar gael i bobl ifanc ac efallai y byddai angen ymgyrch leol neu genedlaethol i roi cyhoeddusrwydd i hyn;
- Hyfforddwyr Dysgu; cydnabuwyd y gallai fod manteision positif i'r syniad hwn er mwyn cadw pobl ifanc ar gyrsiau astudio;
- Roedd y cyfnod trosglwyddo arian ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion o'r awdurdodau lleol i ELWa-y Cyngor Cenedlaethol wedi bod yn fater o bryder;
- Roedd mater o bwys yn ymwneud â gallu: roedd angen llawer o bobl gwahanol â llawer o sgiliau gwahanol i gyflwyno'r agenda ar gyfer llwybrau dysgu 14-19;
- Cysylltwyd Cyfnod Allweddol Tri a'r adolygiad polisi Ysgol y Dyfodol ag ystyriaethau ar gyfer yr agenda 14-19

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Williams am ei chyflwyniad a gwahoddwyd Aelodau i ofyn cwestiynau.

3.3 Ar y cyfan croesawodd yr Aelodau y cynigion a llongyfarchwyd Elizabeth Williams ar ei gwaith mor belled. Codwyd y materion canlynol:

**Sgiliau Meddal**

Mynegwyd peth pryder y gellid ystyried y cyfle i gaffael sgiliau meddal fel rhywbeth a fyddai'n gostwng safonau. Esboniodd Elizabeth Williams fod sgiliau ar wahân i sgiliau academaidd yn hanfodol; er enghraifft, gweithio fel tim, cyfathrebu a dysgu sut i ddysgu.

**Gwaith yn y Gymuned a'r Sector Gwirfoddol**

Cyfeiriodd yr Aelodau at y potensial o profiad gwaith yn y gymuned a'r sector gwirfoddol a gofynnwyd sut y gellid dangos gwerth cyfleoedd o'r fath. Cyfeiriodd Elizabeth Williams at Atodiad D i'r ddogfen ymgynghori.

**Addysg Uwch**

Teimlwyd bod angen cysylltiad mwy clos rhwng sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru â'r agenda 14-19. Teimlai Elizabeth Williams y byddai angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru weithio'n agosach â'r sefydliadau hyn i adolygu cymwysterau a'r system pwyntiau.

**Rhwydweithiau 14-19**

Roedd rhai Aelodau o'r farn nad oedd angen sefydlu strwythurau newydd ac y byddai atgyfnerthu rôl y Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCET) yn ddigon. Dwedodd Elizabeth Williams fod nifer o rwydweithiau'n delio ag addysg o 14-19 ac yn gysylltiedig â CCET eisoes yn bodoli yng Nghymru. Esboniodd mai bwriad y rhain oedd peidio â bod yn rhy argymhellol ond i asesu a defnyddio'r rhwydweithiau hynny sydd eisoes yn bodoli, yn cynnwys y Partneriaethau Pobl Ifanc.

**Ariannu**

Roedd rhai Aelodau o'r farn nad oedd yn gwneud synnwyr i awdurdodau addysg lleol ariannu addysg cyn 16 oed ac i ELWa - y Cyngor Cenedlaethol ariannu'r agweddau ar addysg ôl-16 oed. Teimlai rhai Aelodau y byddai'n fwy effeithiol cael un corff i fod yn gyfrifol am ariannu addysg 14-19 oed. Dywedodd Elizabeth Williams fod angen cael dilyniant ac na ddylai'r dull o ariannu fod yn rhwystr i'r ddarpariaeth.

**Gogledd Cymru**

Cyfeiriodd un aelod at Atodiad A i'r ddogfen ymgynghori ac roedd yn bryderus na chafwyd ymgynghori â phobl ifanc o'r Gogledd. Esboniodd Elizabeth Williams fod anawsterau logistaidd wedi bodoli a byddai sylw yn cael ei roi i hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol.

**Hyblygrwydd**

Yn gyffredinol roedd yr Aelodau'n croesawu hyblygrwydd y cynigion. Ond roeddent yn pryderu y byddai'r agenda hon yn anodd i'w chyflwyno mewn ysgolion lle'r oedd mwy o heriau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhaglenni dysgu hyblyg eisoes yn digwydd o leiaf gyda disgyblion a oedd yn cynnig her ac roedd hyn i'w weld drwy waith y cynlluniau Mynediad Ieuenctid lle byddai dysgu pobl

ifanc yn cael ei sianelu ochr yn ochr â chefnogaeth bersonol.

**Prentisiaeth**

Roedd rhai Aelodau o'r farn fod y gair 'prentisiaeth' yn y ddogfen ymgynghori yn amhriodol ond ni allent feddwl am air addas arall. Awgrymodd Elizabeth Williams y gallai fod yn briodol i ddysgwyr gaffael 'tystysgrif gwybodaeth', ymroddiad ymarferol o'r gwybodaeth a datblygiad o sgiliau allweddol – nodweddion o foel prentisiaeth.

**Hyfforddwyr Dysgu**

Roedd yr Aelodau o'r farn os oedd hyfforddwyr dysgu i fod yn effeithiol, yna byddai'n rhaid cael elfen o ddewis i'r dysgwr a byddai'n rhaid i'r hyfforddwyr gael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol. Cytunai Elizabeth Williams â hyn ond dywedodd y byddai'n broses anodd. Byddai'n rhaid i'r hyfforddwr dysgu fod yn rhywun y byddai'r plant yn gallu ymddiried ynddo.

**Trosglwyddo**

Mynegwyd peth pryder ynghylch y broblem o'r bobl ifanc yn dod allan o gwricwlwm caeth ac yn gwneud naid i ddull gwahanol, llai caeth o ddysgu, a theimlwyd bod angen rhoi sylw i hyn. Sicrhaodd Elizabeth Williams yr Aelodau fod trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt ynghylch trefniadau trosglwyddo o gyfnod allweddol tri i gyfnod allweddol pedwar.

**Targed**

Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y cynnig i gynyddu'r cyfraddau cyfranogi ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i 95%.

**Diogelwch mewn Safloeodd y tu allan i'r Ysgol**

Mynegwyd peth pryder ynghylch y safleoedd ar gyfer plant rhwng 14 ac 16 oed y tu allan i'r ysgol, yn arbennig y colegau addysg bellach sy'n cynnal rhaglenni i helpu i ail-integreiddio cyn-droseddwyr i'r gymdeithas. Er eu bod yn cydnabod gwerth rhaglenni o'r fath, roedd yr Aelodau'n poeni ynghylch y camau diogelu i amddiffyn pobl ifanc. Nododd Elizabeth Williams bryderon yr Aelodau a dywedodd fod nifer o brosiectau y tu allan i'r ysgol eisoes mewn bodolaeth.

**Hunaniaeth**

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod perygl mewn labelu ac achredu popeth y mae pobl ifanc yn ei wneud, heb roi digon o amser a chyfle iddynt ddod o hyd i'w hunaniaeth. Cytunai Elizabeth Williams fod hyn y bwysig a dywedodd y byddai gwaith y Partneriaethau Pobl Ifanc yn sicrhau bod gan bobl ifanc yr amser a'r cyfle i ddatblygu yn eu hamser eu hunain.

3.4 Daeth y Gweinidog â'r drafodaeth i ben drwy ddweud ei bod yn ddiolchgar am farn y Pwyllgor. Cadarnhaodd y Gweinidog ei hymrwymiad i annog yr un parch rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd. Byddai cynllun gweithredu yn cael ei lunio yn gynnar y tymor nesaf, yn dilyn asesiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

3.5 Diolchodd y Cadeirydd i Elizabeth Williams ac awgrymodd y dylai'r Aelodau ysgrifennu at y Gweinidog os oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud.

**Eitem 4: Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol – Cyflwyniad gan Estyn**

**Papur: ELL 19-02(p.2)**

4.1 Siaradodd Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, am yr adroddiad a gyhoeddodd Estyn yn ddiweddar, sef 'Ysgolion Rhagorol: Gweledigaeth ar gyfer Ysgolion yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain' a phwysleisiodd rai materion allweddol yn yr adroddiad, gan gynnwys:

- **Cau'r bwlch;** mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng ysgolion yn dal i fod yn fawr a rhaid ymdrin â hyn;
- **Ysgolion yn y gymuned**; sut y mae'n elwa o'r sgiliau o fewn y gymuned o'i hamgylch?
- **Strwythurau a phatrymau gweithio**; yr angen am ailasesu'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol;
- **Cynllunio, cyllido ac atebolrwydd**; yr angen am gyllidebau tair blynedd;
- **Arweiniad;** yr angen am ddatblygu arweiniad da mewn ysgolion;
- **Athrawon fel rheolwyr;** yr angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus effeithiol i athrawon;
- **Presenoldeb mewn ysgolion**: mae gan 95 o ysgolion uwchradd yng Nghymru absenoldeb o hyd at 10%; ac mae 17 o ysgolion uwchradd yn wag bob dydd.

4.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a chodwyd y materion canlynol:

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

Gofynnwyd i Susan Lewis a oedd yn teimlo bod y Cwricwlwm Cenedlaethol braidd yn rhy gyfyng. Atebodd drwy ddweud fod y Cwricwlwm wedi ateb y diben yn dda; roedd wedi gwella safonau ac wedi rhoi'r un cyfle i bob plentyn mewn addysg. Yn sicr nid oedd yn gyfyng hyd at 14 oed. Wedi hynny, teimlai fod angen dulliau mwy hyblyg.

**Addysg a Hyfforddiant**

Roedd rhai Aelodau yn pryderu bod hyfforddiant yn cael ei ystyried yn israddol i addysg. Dywedodd Susan Lewis fod hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer rhai sgiliau penodol. Fodd bynnag, roedd yn well dysgu theori ac ymarfer ar y cyd. Roedd yn bwysig sicrhau bod addysgu a dysgu cysylltiedig mor gyffrous â phosibl.

## Arweiniad a Rheolaeth

Gofynnodd yr Aelodau i Susan Lewis sut yr oedd yn rhagweld rôl arweiniad a rheeolaeth yn ysgolion y dyfodol. Mewn ymateb, dywedodd Susan Lewis fod y ddau fater hwn yn hollbwysig er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o staff ac adnoddau eraill; er mwyn gwella safonau ac ansawdd y profiad o ddysgu.

## Rôl y Llywodraethwyr

Roedd Susan Lewis yn gweld rôl y cyrff llywodraethu yn y dyfodol fel aelodau anweithredol o'r bwrdd, gyda lefelau atebolrwydd uwch. Ychwanegodd Maggie Turford fod y llywodraethwyr wedi bod yn gefnogol yn hanesyddol. Yn y dyfodol, byddai rôl y llywodraethwr yn golygu bod yn ffrind beirniadol i'r pennaeth, yn rhywun a fyddai'n monitro ansawdd yr addysg ac yn dod â phrofiad y gymuned i'r ysgol.

## Ysgolion Cymunedol

Dywedodd Mike Haines y byddai ysgolion yn dod i sylweddoli y byddai gweithio gydag asiantaethau a grwpiau eraill o fewn y gymuned yn fuddsoddiad hirdymor. Roedd clybiau brecwast yn ddechrau hamddenol i'r diwrnod ac yn cynnig maeth i'r corff a'r meddwl. I'r rheini heb ddigon o le neu heb lonydd yn y cartref roedd clybiau ar ôl ysgol a llyfrgelloedd ysgol yn cynnig amgylchedd diogel ar gyfer astudio a chwblhau gwaith cartref. Cyfeiriodd Mike Haines at yr Alban lle ceid timau integredig o weithwyr cymdeithasol, athrawon a'r heddlu mewn rhai ysgolion cymunedol.

## Cyllid

Roedd Susan Lewis o'r farn fod cylch cyllideb tair blynedd yn hanfodol er mwyn dod â sefydlogrwydd i gynllunio gweithgareddau ysgol. Serch hynny byddai'n rhaid cynnal adolygiadau blynyddol. Ychwanegodd Gareth Adams fod cynnig am gyllid o wahanol ffynonellau yn aml yn golygu diffyg tegwch a chyfiawnder. Hefyd, roedd y gwahaniaeth yn yr uned cyllid fesul disgybl rhwng AALl a'r prinder tryloywder wrth ddyrannu adnoddau yn arwain at system gyllido a oedd yn llai effeithiol ac yn ennyn llai o barch. Teimlai Susan Lewis y dylai'r flwyddyn ariannol gyfateb i'r flwyddyn academaidd er mwyn hwyluso rheolaeth ariannol.

## Trefn y Diwrnod Ysgol

Roedd Susan Lewis o'r farn fod sgôp ar gyfer mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. Nid oedd hyn yn golygu bod angen i athrawon weithio oriau hirach, ond roedd angen ailamserlennu. Er enghraifft, roedd newid gwersi yn tarfu ar y drefn; hefyd nid oedd angen rhoi'r un amser ar gyfer rhai pynciau bob wythnos – roedd sgôp ar gyfer rheoli amser yn well.

## Y bwlch rhwng y rhywiau

Awgrymodd rhai Aelodau fod y dull o asesu o bosibl yn cyfrannu at y ffaith fod bechgyn yn tangyflawni o'u cymharu â merched. Roedd Susan Lewis yn anghytuno a chyfeiriodd at ddata hanesyddol a oedd yn dangos bod gwahaniaeth yn bodoli rhyngddynt hyd yn oed pan oedd y dull o asesu yn ffafrio bechgyn. Dywedodd Susan Lewis fod hwn yn fater cymhleth a'i fod yn fwy tebygol o ymwneud â sut yr oedd pobl ifanc yn amgyffred eu hunain.

4.3 Croesawodd yr Aelodau yr adroddiad a chodwyd nifer o faterion eraill. Nid oedd digon o amser i gynrychiolwyr Estyn roi atebion llawn ond cytunodd Susan Lewis i roi ateb ysgrifenedig i'r eitemau hyn i'r Clerc yn y man.

4.4 Croesawodd y Cadeirydd adroddiad Estyn a diolchodd i Susan Lewis a'i chydweithwyr am ymddangos gerbron y Pwyllgor.

**Eitem 5: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**ELL 18-02(mins)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf, yn amodol ar ychwanegu'r paragraff canlynol:

*"3.10 Roedd rhai Aelodau am gael rhagor o eglurhad gan ELWa-y Cyngor Cenedlaethol ar rai faterion penodol ond nid oedd digon o amser ar gyfer cwestiynau ychwanegol. Awgrymodd y Cadeirydd fod yr Aelodau'n cyflwyno'r cwestiynau hyn yn ysgrifenedig i'r Clerc, a fyddai'n ceisio cael ymateb cadarnhaol gan Steve Martin, y Prif Weithredwr."*

**Papurau i'w Nodi**

6.1 Nododd y Pwyllgor y blaenraglenni gwaith drafft ar gyfer y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a hefyd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod yn bwriadu cynnal cyfarfod anffurfiol gydag undebau'r athrawon ar 13 Chwefror 2003 i wrando ar eu safbwyntiau ar ysgol y dyfodol.